

CYNGOR CYMUNED PENTREFOELAS COMMUNITY COUNCIL

Cadeirydd: Alun Owen

Pwyllgor Blynyddol nos Lun Mai 8fed 2017 am 7. 30 y.h.

Cofnodion

1. Croesawyd yr aelodau i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd
2. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Dewi Evans
3. **Cofnodion Blynyddol 2016** cynigwyd yn gywir gan Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio.
4. **Materion yn codi:**

System Cyfrifon/rheolau - Cafwyd yn ddigonol a phenderfynwyd parhau a'r system bresennol.

Polisi Cydraddoldeb:

 - i) Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas wedi ymrwymo i sicrhau ei fod yn cyflawni ei rhwymedigaethau i weithredu'n deg, yn gyfiawn ac yn unol â'r gyfraith.
 - ii) Yn benodol, ni fydd unrhyw aelod neu weithiwr posibl yn cael eu gwahaniaethu yn eu herbyn ar sail rhyw, hil neu anabled. Mae Cyngor Cymuned Pentrefoelas yn ymestyn y cysyniad o gyfle cyfartal i gynnwys gwahaniaethau ar sail credoau crefyddol neu wleidyddol neu gyfeiriadedd rhywiol.
 - iii) Mae'r polisi hwn yn cael ei monitro'n rheolaidd i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu cyflawni.
 - iv) Bydd yn cael ei adolygu ac os oes angen, yn cael ei ddiwygio yng ngoleuni newidiadau deddfwriaethol neu sefydliadol.
5. **Cwestiynau o'r llawr:**

Dim gan nad oedd neb o'r cyhoedd yn bresennol.
6. **Mantolen Ariannol 2016-2017:** Cafwyd yn gywir ac arwyddwyd.
 - i) Edrychwyd dros y rheolau cyllid a chael pob peth mewn trefn.
 - ii) Mabwysiadwyd asesiad risg a'r rheolau sefydlog.
 - iii) Edrychodd y Cynghorwyr dros yr adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y system fewnol, popeth yn ei le yma.
 - iv) Trafodwyd polisi gweddillion yr holl arian sydd yn y cyfrif banc ar ddiwedd y flwyddyn a chael ei fod yn gywir, ei gario ymlaen i'r flwyddyn nesaf sydd yn digwydd yn flynyddol.
7. **Ceisiadau am Arian:**

Cafwyd 7 cais am arian yn ystod y flwyddyn a phenderfynwyd cefnogi Apêl Ambiwylans Awyr a'r Eisteddfod Genedlaethol Ynys Môn.

 - i) Cynigiodd Paul Weston gyda Gwynfor Roberts yn eilio anfon **£100.00** i'r Ambiwylans Awyr a thalwyd gyda siec rhif **100282**.
 - ii) Cynigiodd Edmund Rees gyda Gari Jones yn eilio anfon **£100.00** i'r Eisteddfod Genedlaethol a thalwyd gyda siec rhif **100283**.
8. **Adroddiadau gan Gynrychiolwyr y Mudiadau**
 - a) Edmund Rees (Elusen Ysbyty) Dywedodd mai un tŷ sydd angen ei osod ar hyn o bryd a 3 tŷ wedi ei gwerthu.
 - b) Paul Weston (Pwyllgor Ganolfan) dim mwy i adrodd ond cefnogi beth oedd gan y Warden i ddweud.
 - c) Paul Weston (Foelas Cyf) werth parhau ond dim llawer o unedau wedi ei llenwi.
 - ch) Edmund Rees (Un Llais Cymru). Dim mwy i adrodd ar ôl y cyfarfod diwethaf.
 - d) Gari Jones (Llywodraethwyr). Dywedodd fod 28 o blant yn yr ysgol ar hyn o bryd. Y gwaith o atgyweirio toiledau'r plant yn dal ar y gweill.

9. **Penodi Swyddogion:-**
- a) Cadeirydd - Gari Jones.
 - b) Is-gadeirydd - Edmund Rees.
 - c) Elusen Ysbyty - Edmund Rees.
 - ch) Pwyllgor y Ganolfan - Gerallt Jones.
 - d) Foelas Cyf - Paul Weston.
 - dd) Un Llais Cymru - Edmund Rees.
 - e) Llywodraethwyr - Gari Jones.
10. **Trosglwyddwyd** y Gadeiryddiaeth i'r Cadeirydd newydd sef Gari Jones gan Alun Owen a diolchodd i bawb am y gefnogaeth a gafodd a dymunodd yn dda i Gari Jones.
11. **Derbyniwyd** y Gadeiryddiaeth a diolchwyd i Alun Owen am ei arweiniad a gobeithio cael yr un gefnogaeth.
12. **Unrhyw fater arall** - Dim.

Arwyddwyd **G B Jones**
Cadeirydd

Dyddiad **14.05.2018**
